# Canolbwynt / Rhwydwaith Twf Busnes Gogledd Cymru
# Nodiadau'r digwyddiad Ymgynghori / Mewnbwn

**Dyddiad ac amser:** 21 Mawrth 2019, 1.00pm - 3.30pm
**Lleoliad:** Ystafell y Bwrdd, Optic Glyndŵr, Llanelwy LL17 0JD

## Cefndir

Fel darn o waith cychwynnol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru, fe wnaeth Cyngor Busnes NWMD ddatblygu (gan weithio fel aelod/partner o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) cysyniad o Ganolbwynt Twf Busnes Gogledd Cymru, wedi'i anelu at gydlynu cefnogaeth ac asedau busnes presennol yn well ledled y rhanbarth, er mwyn gwasanaethu'n busnesau'n well.

Yna, daeth cysyniad Canolbwynt Twf Busnes rhanbarthol yn destun gweithio ar y cyd/datblygiad pellach gan swyddogion Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar waith cynharach y Cyngor Busnes.

Fel rhan o esblygiad cysyniad y Canolbwynt Twf Busnes rhanbarthol, datblygodd timau'r Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth Cymru y syniad ymhellach i Rwydwaith Busnes Gogledd Cymru a bwriedir cyflwyno'r cynigion drafft ar gyfer sefydlu'r Rhwydwaith Busnes i Weinidogion Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais dros y misoedd nesaf.

Er mwyn i'r Sector Preifat barhaus i gael mewnbwn i'r esblygiad hwn a'i arwain, trefnodd y Cyngor Busnes sesiwn ymgynghori/adborth/mewnbwn, a'i Chadeirio, gyda chyrff sy'n cynrychioli Busnesau (ar lefel sirol, genedlaethol a sector) a busnesau unigol o nifer o sectorau, lle cyflwynwyd cysyniad y Rhwydwaith Busnes iddynt gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais.

Mae'r isod yn grynodeb o'r adborth a'r allbynnau a gymerwyd o'r sesiwn, i'w defnyddio fel mewnbwn uniongyrchol i'r cynigion ar gyfer Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais.

NWMD | Business Council
Cyngor Busnes

## Allbynnau

Dylai Cefnogaeth Fusnes fod yn hwylusydd allweddol i fusnesau yn y rhanbarth, fel eu bod yn gwneud y mwyaf o'u potensial a'r cyfleoedd yn y farchnad.

Mae cryn dipyn o adnodd Cefnogi Busnes yn y rhanbarth ar draws nifer o gyrff darparu ac mae enghreifftiau o Gefnogaeth Fusnes sy'n cael ei darparu'n dda - gan aelodau unigol o dimau yn Busnes Cymru, Awdurdodau Lleol, Croeso Cymru, Prifysgolion a Cholegau ac ati...

Fodd bynnag, mae dulliau ariannu ar gyfer gwasanaethau cefnogi busnes yn gyrru meddylfryd seilo ymysg darparwyr, yn seiliedig ar ofynion/targedau'r arian hwnnw. Mae hyn yn arwain at ddyblygu a chystadleuaeth rhwng adnoddau cefnogi busnes.

Felly, mae nid yw cryn dipyn o ***adnodd cefnogi busnes yn y rhanbarth yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial ar gyfer y busnesau y mae wedi'i ddylunio i'w cefnogi.***

Yn gyffredinol mae rheoli Ymholiadau a Chyfrifon gan rai darparwyr cefnogi busnes (gyda busnesau lleol yn Gleientiaid yn yr hafaliad) yn rhy gymhleth, eang ac ***nid yw o reidrwydd yn arwain at gefnogaeth arbenigol yn ddigon cynnar yn y broses.***

Mae diffyg rheolwyr cyfrif sydd wedi'u lleoli yn y Gogledd gyda gwybodaeth ddigonol a pherthnasol leol ac am y sector gan rai darparwyr yn broblem fawr i rai busnesau. Mae enghreifftiau o arfer ardderchog wrth reoli Cleientiaid yn aml, ond nid ydynt ddigon cyson o fewn neu ar draws rhai cyrff darparu.

Y sefyllfa ddelfrydol i fusnesau yw gwasanaeth cefnogi busnes cydlynol sydd ag un tîn yn darparu gwasanaeth lleol, arbenigol o safon uchel gyson sy'n dwyn i mewn ac yn cydlynu cefnogaeth gan bartneriaid ac asedau pellach ledled y rhanbarth, lle bo hynny'n gwneud synnwyr. Yn ei hanfod, corff darparu rhanbarthol sydd wedi'i ffurfio o ddarparwyr cefnogi busnes allweddol e.e. Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, yn darparu gwasanaeth llyfn i'n busnesau lleol. Felly, mae'r Sector Preifat yn cefnogi'r cysyniad o'r Rhwydwaith Busnes.

Ond, mae'r Sector Preifat yn teimlo ***bod angen i ni fod yn fwy uchelgeisiol*** a dysgu o waith blaenorol e.e. y WDA, ac ychwanegu ar y cynnig Rhwydwaith Busnes yn sylweddol a'i esblygu yn gorff datblygu a darparu Rhanbarthol i'r Gogledd yn gyfrifol am Gefnogaeth Fusnes ond hefyd Marchnata, Mewnfuddsoddi ac ati.... Byddai gwahanu cefnogaeth fusnes oddi wrth swyddogaethau perthnasol eraill e.e. mewnfuddsoddi, ond yn creu seilo arall.

Dylai'r corff datblygu a darparu rhanbarthol allu dwyn ynghyd ar fyr rybudd personél allweddol (ar gyfer gweithredoedd ymateb cyflym) gan bartneriaid lleol lle bo angen hynny e.e. cefnogaeth cynllunio ar lefel sirol ar gyfer gwaith mewnfuddsoddi. Dylai Memorandwm o Ddealltwriaeth cryf rhwng tîm craidd y corff datblygu a darparu rhanbarthol a phartneriaid ehangach hwyluso'r math yma o weithio mewn tîm.

Teimlwyd y dylid gwneud 'galwad agored' i bartneriaid a darparwyr gwasanaethau perthnasol yn y sector preifat er mwyn iddynt, o bosib, ddarparu gwasanaethau allweddol fel rhan o'r corff datblygu a darparu rhanbarthol.

O ystyried yr ail-ffurfweddu eang tebygol o arian ar gyfer gwasanaethau/rhaglenni sy'n ymwneud â busnesau e.e. cefnogaeth fusnes, Ymchwil a Datblygu ac ati..., o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE, teimlir bod yr amseru'n ddelfrydol i wneud y newidiadau angenrheidiol i gefnogi'r bensaernïaeth.

## Beth mae Busnesau ei eisiau...

1. Mae'n rhaid i newid trawsffurfiol yn y ffordd y mae Cefnogaeth Fusnes yn cael ei darparu'n rhanbarthol a'i llwyddiant gael eu mesur ar ein nodau rhanbarthol ac allbynnau busnes synnwyr cyffredin, gyda ffrydiau ariannu wedi'u symleiddio yn cefnogi'r noddau a'r allbynnau hynny.

2. Sefydlu corff datblygu a darparu rhanbarthol yn ymwneud â chefnogaeth fusnes i'n Rhanbarth, ond hefyd yn cynnwys cyfrifoldebau megis Mewnfuddsoddi a Marchnata.

3. Un pwynt cychwyn canolog ar gyfer cymorth a chyngor lleol ac arbenigol ar draws nifer o feysydd e.e. llwybrau i gyllid traddodiadol ac amgen, Ymchwil a Datblygu, hyfforddiant a recriwtio, caffael, cyfleoedd cadwyn gyflenwi yn y rhanbarth, eiddo masnachol sydd ar gael, allforio ac ati...

4. Dewis o reolaeth cyfrif ar y we, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb gan rywun lleol sydd â pheth profiad o'n sector... waeth faint yw lefel y trosiant a'r gyfradd newid neu faint o bobl rydym yn eu cyflogi. Dylai rheolaeth cyfrif fod yn hir-dymor... er mwyn cael cysondeb yn y berthynas rhwng y busnes a'r Rheolwr Cyfrif.

5. Nid yw'r ffordd y mae tîm y corff darparu rhanbarthol wedi'i ffurfio, yn nhermau o ba sefydliadau y daw aelodau unigol y tîm, yn bwysig ond mae'n rhaid i'r tîm cyfan gael yr un KPIs / deilliannau targed a rennir.

6. Dylai'r gwasanaethau sydd i'w cynnig i fusnesau a KPIs y corff datblygu a darparu rhanbarthol (ar faterion yn ymwneud â busnes) fod wedi'u cyd-ddylunio a'u cyd-benodi gan y Sector Preifat. Dylid ystyried sefydliadau Sector Preifat perthnasol yn bartneriaid cyflawni posib ar gyfer rhan o waith y corff datblygu a darparu rhanbarthol.

**<u>Materion Gweithredol</u>**

Dylid defnyddio strwythurau a chyrff a sefydlir dan Gynllun Twf Gogledd Cymru er mwyn darparu a rheoli/monitro'r Corff Datblygu a Darparu Rhanbarthol. Fel rhanbarth, nid oes arnom angen cyrff pellach i ychwanegu meddylfryd seilo pellach a dyblygu pellach posib.

Mae'r cyrff a sefydlir dan waith Cynllun Twf Gogledd Cymru yn caniatáu am bartneriaeth ddigonol rhwng Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y Sector Preifat ac AU ac AB ar sail darparu a llywodraethu.

Mae angen ystyried yn ofalus yr unffurfrwydd wrth gasglu data/adrodd ymhlith amrywiol aelodau tîm y corff datblygu a darparu rhanbarthol (gan weithio i nifer amrywiol o sefydliadau yn dechnegol, o bosib) er mwyn i'r tîm rhanbarthol allu gweithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd real ac ymarferol e.e. system CRM a rennir megis Evolutive. Ni ddylem ganiatáu i systemau ddylai fod yn cefnogi datblygu'r economi yn rhanbarthol fod yn rhwystr i ddatblygu economi ein rhanbarth.

Dylai'r cynlluniau ar gyfer corff datblygu a darparu rhanbarthol newydd ddilyn, lle mae'n ychwanegu gwerth, unrhyw arfer orau y gellir ei chael o adolygiad lefel uchel cyflym o ddatblygiadau tebyg o'r tu allan i'r rhanbarth/y DU.

Dylai'r Corff Datblygu a Darparu Rhanbarthol geisio dysgu gwersi parhaus yn ystod ei weithrediadau, er mwyn iddo allu ychwanegu gwerth drwy ychwanegu at ei wasanaethau pan ddaw hynny'n amlwg (drwy ryngweithio/adborth gyda busnesau penodol neu fusnesau mewn sector penodol) e.e. datblygu rhwydweithiau sector neu gadwyni cyflenwi.

## Y sawl a oedd yn bresennol yn y sesiwn

| | |
|---|---|
| Arwel Williams | Llywodraeth Cymru |
| Ashley Rogers | Bwrdd Uchelgais / Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Eiry Davies | Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| Roy Bichan | Dr.Roy Bichan |
| Garffild Lloyd Lewis | Gogledd Creadigol |
| Claire Williams | CITB |
| James Sheridan | North Wales Exporters Club / Straits Line |
| Clare Budden | Grŵp Tai Pennaf |
| David Roberts | Alternative Board / IOD |
| Debbie Bryce | Siambr Fasnach Gorllewin Sir Caer a Gogledd Cymru |
| Ian Edwards | Allington Hughes Law |
| Keith Jones-Pritchard | Wrexham Business Professionals |
| Nick McCavish | Adventure Parc Snowdonia |
| Alan Cooper | FSB |
| Mary Wimbury | Fforwm Gofal Cymru |
| Alastair Cameron | Glentarn Consultants |
| Wyn Jones | Design Reality |

| | |
|---|---|
| Steve Thomas | Airbus |
| Steve Lyons | Airbus |
| Jim Jones | Twristiaeth Gogledd Cymru |
| Vicki Roskams | Enbarr Enterprises |
| Peter Swanson | IChemE |
| Ian Williams | Mott MacDonald |
| Mark Lawton | RISC IT Solutions |
| Stephen Edwards | CREAD Cyf |
| John Reynolds | Reynolds International |
| Gerallt Llewelyn Jones | Morlais / Menter Môn |
| Stephen C Wade | Legat Owen |
| Askar Shebani | Comtek / Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy / Bwrdd Cyflawni Busnes - Bwrdd Uchelgais |
| Sean Taylor | Zip World |
| Alison Hourihane | Wynne Construction |
| Alwyn Davies | Rondo Media |
| Michael Bewick | Slate Mountain |
| Berty de Jong | Unimaq |
| Huw Jones | Jones Bros |
| Ed Reeves | Moneypenny |
| Morag Davies | M & P Business Solutions |
| Andrew Bowden | Cartrefi Conwy / Bwrdd Cyflawni Busnes - Bwrdd Uchelgais |
| Huw Watkins | BIC Innovation |
| Amie Field | Gyrfa Cymru |